

COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED DYFFRYN ARDUDWY A TALYBONT A GYNHALIWDY YN NEUADD GYMUNEDOL, DYFFRYN ARDUDWY AM 6.30 O'R GLOCH 1.9.26

9.1 YMDDIHEURIADAU

Cyng. Jennifer Yuill (Is-Gadeirydd), Deilwen Anderson, Evan Owen.

9.2 PRESENNOL

Cyng. Edward Griffiths (Cadeirydd), Edward Williams, Nia Rees, Beth Bailey, Sion Ifor Williams, Gwynfor Evans, John Ceri Evans, Sian Edwards, William Hooban.

Datganodd y Clerc bod y Cyng. Deilwen Anderson wedi gwneud cais i gael 6 mis i ffwrdd o'r Cyngor oherwydd pwysau gwaith a materion teuluol a cytunodd pawb dylai hyn gael ei ganiatau.

9.3 CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD

Ar ran y Cyngor cydymdeimlodd y Cadeirydd a Mr. O. G. Thomas a'r teulu yn dilyn marwolaeth Millie Edwards.

9.4 COFNODION

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Gorffennaf 7ed 2026 fel rhai cywir.

9.5 MATERION YN CODI O'R COFNODION

Item 7.12 cytunodd y Cyng. Edward Williams holi Mr. Gwion Williams ynglyn ac atgyweirio y cylchfan yn y parc chwarae.

9.6 DATGAN BUDDIANT

Datganodd y Cyng. William Hooban ddiddordeb yn y mater gyda'r cae peldroed.

Datganodd y Cyng. Nia Rees ddiddordeb yn y mater gyda'r cae peldroed.

Datganodd y Cyng. Beth Bailey ddiddordeb yn y mater gyda'r cae peldroed.

Ni lofnodwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddynt am eu bod wedi gwneud hyn yn barod yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor a bod y diddordeb yn y mater hwn yn rhedeg yn barhaol.

Datganodd y Cyng. Beth Bailey ddiddordeb yng nghais cynllunio Dyffryn Seaside Estate a llofnodwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddi a ni chymerodd rhan yn y drafodaeth.

9.7 MATERION CYNGOR GWYNEDD

Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Eryl Jones Williams:- Doedd dim cyfarfodydd Cyngor Gwynedd yn ystod mis Awst.

Ni ddigwyddodd y cynlluniau am amrywio'r llwybr ceffyl oherwydd oedi gan gyfreithiwr y Boys Brigade, ac agweddau ariannol. Mae Dŵr Cymru wedi cytuno i weithwyr gael eu gosod wrth faes gwaith y gwastraff y Boys Brigade a'r croesffordd y rheilffordd pan fydd cerbydau mawr yn mynd i'r safle. Rwy'n meddwl ein bod wedi bod yn lwcus iawn nad oedd unrhyw ddigwyddiadau, rwyf yn dal i fod yn bryderus am y rhwystrau rheilffordd ar goll dros y nant ac rwyf wedi cysylltu â Priffyrdd Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri, a Dyffryn Seaside Estate. Mae'r llwybr beicio yn cael ei ddefnyddio'n aml gan drigolion a gwesteion. Bu cwyno am scramblers ar lwybrau Cors Y Gedol yn y coedwig. Rwyf wedi cael addewid y bydd Parc Cenedlaethol Eryri a'r Priffyrdd yn ymchwilio. Bydd cau ffordd ym Mhennrhiw ac ar yr A496 yn Dyffryn. Ymddengys y bydd y dreth ymwelwyr yn cael ei gweithredu. Gall Cyngor Gwynedd gadw 10% ar gyfer gweinyddiaeth gyda'r gweddiill yn cael ei ddefnyddio mewn ardaloedd twristiaeth. Rwy'n gobeithio y bydd toiledau cyhoeddus newydd ar gyfer Dyffryn Ardudwy yn cael ei gynnwys. Rwyf wedi anfon e-byst at Annwen dros wahanol wybodaeth. Rwyf ar gael ar 01341 242 758.

9.8 CEISIADAU CYNLLUNIO

Dymchwel pump (5) byngalo gwyliau ar wahân presennol a chodi byngalo newydd yn eu lle - Dyffryn Seaside Estate, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/81Z)

Cefnogi y cais hwn.

9.9 MATERION YN CODI

A Cynllun Cyllideb

Adroddwyd bod £18,168.47 (yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd, a bod hyn yn £13,200.53 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn.

B Cae Peldroed

Cafwyd wybod bod neb wedi clywed ddim byd pellach gan Mr. Michael Evans o ADRA ynglyn ar safle uchod.

C Cais Grant Gwynedd Ni

Adroddodd y Clerc bod angen yn nawr archebu yr hyn oedd wedi cael ei restru yn y cais grant a cytunodd y Clerc i ofalu am archebu y seddi, bwrdd picnic ar giat i'r parc chwarae. Hefyd cytunodd i drefnu bod y gwaith yn cael ei wneud o dan yr offer pel fasged. Byddai pwyllgor y neuadd yn archebu yr hysbysfwrdd, arwyddion i'r neuadd a hysbysfyrddau y gorsafoedd tren. Hefyd adroddodd y Clerc bod angen tynnu lluniau cynt ag ar ol i'r gwaith gael ei gwblhau.

D Camerau CCTV

Nid oedd diweddariad ar gael ynglyn ar mater uchod.

E Adborth: Proffiliau Aneddiadau Drafft

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn y ddogfen ynglyn ar uchod yn nol gan y Cyng. Evan Owen wedi iddo ei gwblhau a'i anfon i'r Parc Cenedlaethol, ond oedd y Cyngor wedi gofyn iddo rannu y ddogfen wedi ei chwblhau gyda hwy yn gyntaf ond nid oedd hyn wedi cael ei wneud. Hefyd wrth ddarllen drwy y ddogfen oedd y Cyng. Owen wedi ei gwblhau 'roedd yn amlwg bod rhai manylion ddim yn gywir ynddi. 'Roedd y Cyngor wedi anfon llythyr at y Cyng. Owen yn gofyn pam ei fod wedi gwneud hyn, ond yn anffodus nid oedd wedi ymateb ond yn hytrach yn anfon e-byst oedd ddim yn berthnasol i'r mater hwn.

Hefyd adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan y Cyng. Evan Owen yn gofyn gweld pob e-bost, neges destun, a chyfathrebiadau WhatsApp rhwng y Clerc, Cyng. Edward Griffiths, Cyng. Edward Williams, a'i wraig Heather Williams rhwng 01/06/2026 a heddiw 01/09/2026 yn ymwneud â phroffiliau setliadau Parc Cenedlaethol Eryri a'r bwlch pentref. Os yw unrhyw Gynghorwyr eraill wedi'u cynnwys, rwyf am weld y cyfathrebiadau hyn hefyd. Rwyf hefyd am weld pob cyfathrebiad rhwng y Clerc a Pharc Cenedlaethol Eryri ers i'r broses LDP3 ddechrau. Cytunodd pawb i wrthod y cais hwn oherwydd nid oedd e-byst na negesuon eraill ynglyn ar mater hwn yn bodoli rhwng yr Aelodau yr oedd wedi ei enwi. Cytunwyd i wneud ymholiadau ag i gael cymorth pellach i weld a fyddai y Cyngor yn gallu gwneud rhywbeth ynglyn ag ymddygiad y Cyng. Owen tuag at Aelodau o'r Cyngor ar Clerc.

9.10 GOHEBIAETH

A Corachod Dyffryn

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn gofyn am gymorth ariannol gan y Cyngor. Cytunwyd i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor gyda gweddill y ceisiadau. Hefyd cytunwyd i ofyn am mantolen banc.

B Radio Ysbyty Gwynedd

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn gofyn am gymorth ariannol gan y Cyngor. Cytunwyd i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor gyda gweddill y ceisiadau.

C Cyngor Gwynedd – Adran Priffyrdd

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor o'r gwaith sydd yn mynd i gael ei gario allan ganddynt yn ystod y mis nesa.

D. Mrs Margaret Jones

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod ynglyn a chyflwr eglwys Llanenddwyn ar rhan o'r fynwent sydd ddim o dan ofal y Cyngor a cytunwyd bod y Clerc yn cysylltu gyda'r perchnogion ynglyn a hyn.

9.11 ADRODDIAD Y TRYSORYDD

Adroddodd y Trysorydd bod £51,639.98 yn y cyfrif rhedegol a £67,030.00 yn y cyfrif wrth gefn.

Anfonebau angen eu talu ers y cyfarfod diwethaf

Mrs Annwen Hughes - £546.12 - (cyflog) + £325.11 costau = £871.23
Evergreen - £425.00 - torri gwair y 3 fynwent
Gary Martayn - £682.00 - torri gwair parc chwarae, maes parcio ag amrywiol lefydd
Mr. G. J. Williams - £144.00 - torri gwair o gwmpas amrywiol lefydd yn Talybont
Pwyllgor Neuadd Bentref - £20.00 – llogi ystafell bwyllgor (Gorffennaf)
J. B. Pest Control - £60.00 - contract difa pla am y flwyddyn
Elliot Electrical Ltd - £744.00 - gwaith trydanol yn y neuadd bentref
Mr. M. J. Kerr - £100.00 - agor bedd y diweddar Jean Edna Darley (llwch)
Mr. M. J. Kerr - £100.00 - agor bedd y diweddar Doris Frances Hughes (llwch)

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. William Hooban a wnaeth y Cyng. John Ceri Evans gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad i'r Clerc/Trysorydd i'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf

Cyllid a Thollad - £556.00 - ad-daliad T.A.W
Pritchard & Griffiths - £665.00 – claddu llwch y diweddar Ms Jean Darley
Cyngor Gwynedd - £27,500.00 - hanner y precept

Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf

Catrin Soraya Williams – £90.00 - gwasanaeth cyfieithu
Cyngor Gwynedd - £510.00 - archwiliad mewnol 2025/26

9.12 UNRHYW FATER ARALL

Datganwyd pryder ynglyn ar defnydd mae beiciau modur scramblers yn ei wneud o coed Gors y Gedol a cytunwyd i ofyn i'r Adran Prifffyrdd a fyddai yn bosib ei lleihau i Ffordd Wedi'i Gyfyngu oherwydd bod y safle yn coedwlad bwysig fel rhan o Goedwigoedd Derw Meirionnydd ac yn gysgodfa slymod ac mae hefyd yn SSSI a SAC

Cytunwyd i rhoid nadolig 2026 ar agenda mis nesa a bod yr is-bwyllgor nadolig yn cyfarfod cyn hynny.

Wedi derbyn cwynion bod y ffordd i lawr am y stesion a ffordd yr efail heb gael eu torri eleni.

Cytunwyd i rhoid Sul y Cofio ar agenda mis nesa ag oherwydd bod Mrs Alma Griffiths na Mrs Mai Roberts ddim ar gael i wneud y gwasanaeth i ofyn a fyddai yn bosib i Mrs Beth Bailey ei gymeryd. Cytunodd y Cyng. Beth Bailey ofyn iddi.

Datganwyd pryder bod plant wedi bod yn llechio balwns dwr yn y fynwent gyhoeddus yn hwyr yn nos ag hefyd wedi bod o amgylch y pentref yn cnocio drysau a chafwyd wybod bod yr Heddlu yn cadw golwg ar y sefyllfa hon.

Cafwyd wybod bydd y Clwb Ieuenctid yn cychwyn yn nol wythnos nesa a cytunodd y Cyngor i dalu am iddynt logi y neuadd.

Datganwyd pryder bod llanast o amgylch Castell Coch a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda ADRA ynglyn a hyn ag hefyd gyda'r Parc Cenedlaethol ynglyn ar arwyddion ger Sunnysands a One Stop.

Gofynnwyd pwy oedd yn gyfrifol am dorri drain sydd yn tyfu ar hyd ochor y palmentydd a datganwyd os oedd y tyfiant hyn yn dod o'r tir gerllaw mae perchennog y tir oedd yn gyfrifol am ei dorri yn nol.

Cytunwyd oherwydd nid oedd y Clerc ar gael ar y 1af o Ragfyr i gynnal cyfarfod mis Rhagfyr o'r Cyngor ar nos Fercher yr 2il ag i gychwyn am 6.30 o'r gloch.

ARWYDDWYD.....Cadeirydd

DYDDIAD.....